

Presennol

Y Cyngorydd S J Griffiths – y Dirprwy Gadeirydd

Presennol yn Rhithwir

RJ Collins
D M Hughes
J Llewellyn-Hopkins
I Williams

C L C Davies
M R John
J E Pratt

D T Harrison
W J Kendall
I M Spiller

M L Hughes
M Lewis
A Wathan

Swyddogion:

Alex Carey
Kath Carter
Rhodri Davies
Lee Evans
Craig Flower
Charlotte Gay
Stephen Griffiths
Laura Griffiths
Jess Hartley
Abigail James
Steven Jenkins
Charlotte Mewburn
Janine Nightingale
Jonathan Parsons
Michael Pitman
Adam Provoost
Oscar Roberts
Philip Thomas
Deborah Williams

Prif Swyddog – Datblygu Priffyrdd
Swyddog Cynllunio
Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu
Uwch Swyddog Cynllunio
Arweinydd y Tîm Cefnogi Cynllunio
Technegydd Cynllunio – Rheoli Datblygu ac Adeiladu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chynllunio Brys
Rheolwr Polisi Bioamrywiaeth
Swyddog Cynllunio
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu
Prif Gynlluniwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau
Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu
Swyddog Cymorth Technegol y Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu
Swyddog Cynllunio Strategol

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad Wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr R Granville ac R Williams.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

276. Datganiadau o Fuddiannau

Y Penderfyniad Wnaed	Eitem 8 ar yr Agenda Y Cynghorydd I Spiller – Personol – Aelod o Gyngor Cymuned Trelales . Y Cynghorydd M Lewis – Personol – Crybwyllwyd y Cyd-wasanaethau Rheoleiddio fel rhan o'r eitem hon ac fel cadeirydd Trwyddedu, mae hi'n aelod o'r Cydbwyllgor ar gyfer y Cydwasanaethau Rheoleiddio. Eitem 10 ar yr Agenda Y Cynghorydd J Pratt – Personol – Aelod o Gyngor Tref Porthcawl. Eitem 11 ar yr Agenda Y Cynghorydd A Wathan – Rhagfarnus – Perthynas yn prynu eiddo yn agos i'r datblygiad. Y Cynghorydd S Griffiths – Personol – Wedi llofnodi cais am hawl tramwy cyhoeddus ar y tir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

277. Ymweliadau Safle

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cafodd Dydd Mercher, 14/10/2026, ei gymeradwyo ar gyfer ymweliadau safle yn codi o'r cyfarfod neu rai a adnabuwyd gan y Dirprwy Gadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar yr amod bod yr amserlen hyfforddi yn cael ei gwirio ar gyfer yr un bore.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

278. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – THURSDAY, 3 SEPTEMBER 2026

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 23 Gorffennaf 2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

279. Siaradwyr Cyhoeddus

Y Penderfyniad Wnaed	Roedd y siaradwyr cyhoeddus canlynol wedi cofrestru i siarad am y ceisiadau cynllunio canlynol yn y cyfarfod heddiw: P/25/507/HYB - Y Cynghorydd J P Blundell a S Gray (Llanmoor Dev Co Ltd). P/26/257/FUL - M Pinkham – 8 Ynyslas, Porthcawl ac A Richards – 9 Ynyslas, Porthcawl. P/25/722/FUL - Y Cynghorydd M Williams a J Downey (Cynllunio yn unig).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

280. Taflen Newidiadau

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Derbyniodd y Dirprwy Gadeirydd Daflen Newidiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor. Roedd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau yr oedd angen eu cynnwys.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

281. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u>
----------------------	----------------------

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – THURSDAY, 3 SEPTEMBER 2026

	Bod y Pwyllgor yn nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y cawsant eu dangos yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

282. P/25/507/HYB – Tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr (Tir rhwng Heol Llangewydd a'r A473 Pen-y-bont ar Ogwr)

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cynnig: Gofynnodd Llanmoor Homes am Ganiatâd Cynllunio Llawn ac amlinellol ar gyfer datblygiad helaeth ar dir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr; safle strategol a neilltuwyd yn benodol ar gyfer datblygiad newydd o fewn Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024). Mae'r cais a gyflwynwyd yn gyfuniad o ddau fath o gais cynllunio (amlinellol/llawn) ar gyfer datblygiad preswyl o hyd at 850 o gartrefi, man agored cyhoeddus ac ysgol gynradd, ynghyd â gwaith tirlunio, draenio, Seilwaith Gwyrdd gyda mynediad i gerbydau a cherddwyr/beicwyr (cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ac eithrio'r dull o fynd i mewn, a chais llawn ar gyfer y cam cyntaf sy'n cynnwys 377 o anheddau, lonydd mewnol yr ystad, man agored cyhoeddus (gan gynnwys lleoedd chwarae), draenio, llwybrau cerdded/beicio mewnol gyda chyfleusterau parcio/tirlunio ynghyd â gwaith cysylltiedig). Cynhaliwyd ymweliad safle llawn gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ddydd Mercher 2 Medi 2026 am 9.30am. Yn ogystal ag Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor Rheoli Datblygu, roedd Aelodau Ward Lleol, cynrychiolydd o Gyngor Cymuned Trelales a'r datblygwr yn bresennol yn yr ymweliad safle. Cytunodd y Pwyllgor i bleidleisio ar roi caniatâd i'r cais ai peidio. Yn dilyn y bleidlais, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid yr Argymhelliad i gymeradwyo'r cais o naw (9) pleidlais i bedair (4). <u>PENDERFYNWYD:</u> CYMERADWYODD y Pwyllgor y cais, yn amodol ar i'r ymgeisydd lofnodi Cytundeb Adran 106, yr amodau a'r nodiadau gwybodaeth (Nid Amodau) yn ymwneud â'r caniatâd cynllunio manwl/llawn (h.y. y 377 o gartrefi cyntaf a'r seilwaith cysylltiedig), a'r amodau a'r nodiadau gwybodaeth (Nid Amodau) yn
----------------------	---

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – THURSDAY, 3 SEPTEMBER 2026

	ymwneud â'r caniatâd cynllunio amlinellol (h.y. datblygu gweddill y safle ar gyfer hyd at 850 o gartrefi a'r seilwaith cysylltiedig, ac ysgol gynradd)
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

283. P/21/47/FUL – Tir i'r de o Dafarn yr Old House, Llangynwyd, CF34 9SB

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cynnig: Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer codi 10 pod glampio a gwaith cysylltiedig ar dir i'r de o Dafarn yr Old House, Llangynwyd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Rhoddodd y Pwyllgor GYSDYNIAD AMODOL i'r cais, yn amodol ar yr amodau a'r nodiadau cynghori a amlinellwyd yn yr adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

284. P/26/257/FUL - 7 Ynyslas, Porthcawl, CF36 5EF

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cynnig: Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys dymchwel yr ystafell wydr bresennol yn y cefn ac adeiladu estyniad un llawr yn y cefn ynghyd â stiwdio ardd yng nghefn yr ardd. Mae'r safle'n cynnwys byngalo ar wahân sydd wedi ei leoli ar ochr orllewinol Ynyslas. Mae'r ardal gyfagos yn cynnwys eiddo o natur debyg yn bennaf. Mae gan lawer ohonynt estyniadau yn y cefn. Mae gan yr eiddo ardd gefn ddofn, sy'n cefnu ar erddi rhandir. <u>PENDERFYNWYD:</u> Rhoddodd y Pwyllgor GYDSYNIAD AMODOL i'r cais, yn amodol ar yr amodau a'r nodiadau cynghorol a nodwyd yn yr adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

285. P/25/722/FUL – Tir i'r de o Wyndham Close, Stad Ddiwydiannol Bracla, Bracla, CF31 2AN

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cynnig: Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd llawn i newid defnydd tir i ddefnydd Dosbarth B8 er mwyn darparu cyfleuster hunan-storio, a gosod 149 o gynwysyddion yn mesur 2.4 x 6 x 2.6m (Lled x Dyfnder x Uchder) ac o liw glas. Byddai'r cynwysyddion storio yn cael eu trefnu yn fras ar ffurf sgwâr, gyda rhesi sengl ar yr ymylon gogleddol a deheuol, a dwy res ddwbl rhyngddynt. Cynigir cael mynediad i gerbydau drwy fynedfa flaenorol yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y safle, drwy Wyndham Close yn arwain at y codiad tir gwastad. Byddai llwybrau i gerbydau, tua 8m o led, yn croesi'r rhesi o gynwysyddion. Mae'r safle cyfan yn cwmpasu arwynebedd o 0.98 hectar, tra byddai arwynebedd y cynwysyddion a'r llwybrau cerbydau yn 70 x 60.85m. Cytunodd y Pwyllgor i bleidleisio ar p'un a ddylid rhoi caniatâd i'r cais ai peidio. Yn dilyn y bleidlais, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid yr Argymhelliad i roi cydsyniad amodol i'r cais, gydag wyth (8) pleidlais o blaid a dwy (8) yn erbyn, ac un (1) yn ymatal. <u>PENDERFYNWYD:</u> Rhoddodd y Pwyllgor GYDSYNIAD AMODOL i'r cais, yn amodol ar yr amodau a'r nodiadau cynghori a amlinellwyd yn yr adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

286. Apeliadau

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y'u dangoswyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

287. Adroddiad Monitro Blynnyddol

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – THURSDAY, 3 SEPTEMBER 2026

Y Penderfyniad Wnaed	Pwrrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno canfyddiadau Adroddiad Monitro Blynnyddol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2026 i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2026. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad hwn ynghyd ag Adroddiad Monitro Blynnyddol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2026 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

288. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl

Y Penderfyniad Wnaed	Pwrrpas yr Adroddiad hwn oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y broses ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Gyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl. Mae hefyd yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i'r CCA o ganlyniad i hynny ac yn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor er mwyn iddi gael ei mabwysiadu. <u>PENDERFYNWYD:</u> Fe wnaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu: a) Nodi cynnwys yr Adroddiad, drafft terfynol y CCA ar Gyfleusterau Addysgol a Datblygu Preswyl (Atodiad 1) a'r crynodeb o'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd ar y CCA drafft ar Gyfleusterau Addysgol a Datblygu Preswyl, ynghyd â'r diwygiadau o ganlyniad, sydd ynghlwm fel Atodiad 2; b) Nodi y bydd y CCA terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i ofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno'r CCA i'r Cyngor i gael ei fabwysiadu.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

289 Cofnod Hyfforddiant

Y Penderfyniad Wnaed	Mewn ymateb i drosolwg o'r Cofnod Hyfforddi gan Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, nododd yr Aelodau y byddai wedi bod yn well pe gellid bod wedi trefnu bws mini ar gyfer yr ymweliad safle ag Abertawe SA1 ar 18 Medi. Atebodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu drwy
----------------------	---

Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – THURSDAY, 3 SEPTEMBER 2026

	nodi nad oedd hyn yn bosibl oherwydd y gost sylweddol o logi bws mini a faint o amser fyddai ei angen i drefnu taith o'r fath. Awgrymwyd, os oedd ar unrhyw Aelod angen lifft i fynd i'r ymweliad safle ag Abertawe SA1, y dylent gysylltu â'r Is-gadeirydd neu Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu. Nodwyd hefyd ei bod yn annhebygol y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 11 Mai yn mynd yn ei flaen, gan ei fod yn digwydd yn fuan iawn ar ôl yr etholiadau lleol ar 6 Mai. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, oedd yn hysbysu'r Aelodau am fentrau hyfforddi oedd ar y gweill.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

290. Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	3 Medi 2026

I wyllo rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45